Eisteddfod Swyddffynnon 2018

Rhaid bu gohirio yr Eisteddfod eleni ar Fawrth yr ail oherwydd y tywydd garw a'r eira, ond llwyddwyd i ail drefnu'r Eisteddfod ar gyfer nos Wener, 20fed Ebrill 2018 yn Neuadd Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid. Y beirniad Llên a Llefaru oedd Lowri Steffan, Llanilar a'r beirniad Cerdd oedd Siw Jones, Felinfach. Ein Cyfeilyddes eleni oedd Manon Fflur Jones, Pontrhydfendigaid, merch ifanc o'r ardal sydd â dawn arbennig o gyfeilio, ac rydym fel pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddi am ymgymryd â'r gwaith. Yr Arweinyddion oedd Annwen Davies, Meinir Jenkins, Dafydd Jones ac Efan Williams. Dymunwn ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi, boed yn y cystadlaethau llwyfan, ysgrifenedig, yn dysgu'r unigolion, trwy roi tarian neu gyfrannu rhodd ariannol – diolch i bawb.

Llywyddion yr Eisteddfod oedd Evan a Bethan Jones, Hendrewen, Tynygraig, dau sydd â'i gwreiddiau yn ddwfn yn ardal yr Eisteddfod, ac wedi cystadlu a'i chefnogi ar hyd y blynyddoedd. Bu i'w tri plentyn, Elen, Tom a Dafydd gystadlu yn gyson yn Swyddffynnon a Dafydd wedi elwa o hyn wrth iddo ennill nifer helaeth o wobrau yn Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd a'r Genedlaethol am nifer fawr o flynyddoedd. Erbyn hyn mae'r wyrion yn ymddiddori yn yr un maes, a braf oedd eu gweld yn cystadlu yn yr Eisteddfod eleni. Cyflwynwyd y Llywyddion gan Annwen Isaac a cafwyd araith fechan gan Dafydd ar ran ei rieni. Diolch iddynt am eu rhodd haelionus i gronfa'r Eisteddfod ac am eu presenoldeb.

Bardd y Gadair eleni oedd un arall â phentref Swyddffynnon yn agos at ei galon, sef Cyn-Brifathro'r Ysgol yn yr 80au, John Jones, Ffair Rhos. Derbyniodd gadair fechan am gyfansoddi cerdd ar y testun "Taith" o dan y ffugenw "Ben". Roedd cynnwys y gerdd yn un emosiynol iawn, yn cyfeirio at gyfaill agos iddo a gymerodd ei fywyd yn gynt eleni.

Roedd Seremoni'r Cadeirio yng ngofal Meinir Jenkins, Ynysforgan, cyrchwyd y Bardd buddugol i'r Llwyfan gan Annwen Davies ac Annwen Isaac, cyflwynwyd cadair (o waith Jeff Jones, Llanafan) i John gan Ysgrifenyddes yr Eisteddfod, Annwen Isaac. Cyfarchwyd y Bardd buddugol gan Annwen James, Aberystwyth, Dafydd Jones ac Annwen Davies. Canwyd cân y cadeirio gan Barry Powell. Enillydd Tlws yr Ifanc o dan 25 oed, oedd Nest Jenkins, Ynysforgan, derbyniodd y tlws am gyflwyno darn o lenyddiaeth ar y testun "Amser". Yn anffodus oherwydd ymrwymiadau efo'r Brifysgol yng Nghaerdydd methodd Nest a bod yn bresennol. Yn ei habsenoldeb cyflwynwyd y tlws a oedd yn rhoddedig gan Dafydd Jones i'w mam Meinir.

Diolch i Bwyllgor Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen am fenthyg y piano, i Bwyllgor y Neuadd am pob cydweithrediad wrth baratoi, i Annwen Davies, Cynhawdre am addurno'r Neuadd yn hardd yn ôl yr arfer, i wragedd y Capel a'r Gymuned am gynorthwyo efo'r lluniaeth, ac i'r dynion wrth y drysau.

Dyma'r canlyniadau:

Unawd Cyfyngedig: Charlote Smith-Jones
Unawd dan 6: Meia Elin
Unawd dan 9: Ifan Williams
Parti Canu Cynradd: Côr Bont
Offeryn Cerdd Cynradd: Gwenno Humphreys

Unawd dan 12: Elin Williams
Unawd dan 15: Lisa Bulman
Offeryn Cerdd Uwchradd: Sophia Nicholas
Unawd dan 18: Guto Lewis
Canu Emyn dros 50: Gwyn Jones
Alaw Werin: Dafydd Jones.
Parti Canu Agored: Parti Camddwr
Unawd Sioe Gerdd: Sioned Howells
Unawd dan 30: Sioned Howells
Her Unawd: Efan Williams
Unawd Gymraeg: Efan Williams

Llefaru Cyfyngedig: Anest Jones
Llefaru dan 6: Meia Elin
Llefaru dan 9: Anna Jones
Parti Llefaru Cynradd: Parti Ysgol Bont
Llefaru dan 12: Elin Williams
Llefaru dan 15: Glesni Morris
Llefaru dan 18: Siwan George
Sgen ti Dalent: Rhiannon Lewis a Lois Williams
Parti Llefaru Agored: Ysgol Henry Richard
Llefaru dan 30: Sioned Howells
Darllen darn o'r Ysgrythur: Geinor Jones
Her Adroddiad: Sioned Howells

Brawddeg: Carys Briddon
Limeric: Megan Richards
Brysneges: Megan Richards

Llawysgrifen dan 12: Nia Lewis
Llawysgrifen Uwchradd: Caryl Bulman
Llawysgrifen Agored: Eirlys Jones